Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau arwyddocaol

## Taliadau Cyfanwerthu Dangosol 2026/27

Yn unol â gofynion y "Rheolau ar daliadau cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E ac 117I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, a gyhoeddwyd ar 21 Hydref 2021 o ran gwybodaeth, byddwn ni'n cyflwyno'r datganiad canlynol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Cyfrifwyd taliadau dangosol ar sail y Dyfarniad Terfynol ar PR24 a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2024, a ddiweddarwyd yn unol â'n cyflwyniad mewn perthynas â blwyddyn ddall PR24 i gynnwys data alldro 2024/25. Bydd Ofwat yn cyhoeddi ei Ddyfarniad Terfynol mewn perthynas â hyn ym mis Rhagfyr 2025, a chaiff hyn ei ymgorffori i'r cyfrifiadau ar gyfer ein taliadau terfynol.

## Newid strwythur y taliadau cyfanwerthu

I gydnabod y gofyniad i unioni'r strwythurau ar gyfer taliadau dibreswyl a gyhoeddwyd gan Grŵp y Manwerthwr/Cyfanwerthwr ar ran MOSL, rydyn ni wedi diwygio ein strwythur tariffau ar gyfer defnyddwyr mawr i fod yn gyson â safon y diwydiant.

Mae hynny'n golygu bod ein Bandiau 4 a 5 blaenorol ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio mwy na 500Ml a 1000Ml y flwyddyn yn y drefn honno bellach yn cael eu hymgorffori i Fand 3, sy'n cynnwys yr holl gwsmeriaid sy'n defnyddio 250Ml neu ragor y flwyddyn. Cyfrifwyd y taliadau dangosol fel nad oes effaith andwyol ar unrhyw gwsmer yn sgil cynnydd o dros 1% mewn taliadau ar ôl trosglwyddo i'r strwythur newydd. Rydyn ni wedi mabwysiadu grwpiau safonol y diwydiant ar gyfer taliadau fesul band ar sail meintiau mesuredig i gwsmeriaid dibreswyl ar y taliadau safonol, sef 0-25mm, 26-50mm cynhwysol, 51-100m, a >100mm.

## Effaith y taliadau dangosol ar filiau dŵr cyfanwerthu cwsmeriaid

Rydyn ni'n rhag weld y bydd y cwsmeriaid ar ein tariffau ar gyfer Defnyddwyr Mawr yn gweld cynnydd o tua 13% yn eu biliau dŵr, yn seiliedig ar lefel gyson o ddefnydd, o ganlyniad i'r tariffau dangosol, a hynny'n seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd rhagolygon y CPIH o ran chwyddiant ar lefel o 3.8%. Dangosir yr effaith ar sampl o gwsmeriaid yn y tabl isod. Nid yw hyn yn cynnwys effaith ar wahân y taliadau dŵr gwastraff ar filiau cwsmeriaid. Mae tariffau dŵr Crai ac Wedi ei Drin yn Rhannol yn dangos cynnydd llai ers y flwyddyn ariannol flaenorol am fod y gostyngiad yn y refeniw a ganiateir ar gyfer rheolaeth ar brisiau adnoddau dŵr yn effeithio'n fwy ar y rhain.

## Biliau dangosol - safleoedd cymwys

| Tariff Defnyddiwr Mawr | Defnydd | Tâl Cyfanwerthu 2025/26 | Tâl Cyfanwerthu Dangosol 2026/27 | Gwahaniaeth | |
|---|---|---|---|---|---|
| | $m^3$ | £ | £ | £ | % |
| **Band 1 (50 - 99 Ml/a)** | | | | | |
| Cwsmer â defnydd ar fand pwynt canolig | 75,000 | 120,179 | 135,927 | 15,748 | 13.1% |
| **Band 2 (100 - 250 Ml/a)** | | | | | |
| Cwsmer â defnydd ar fand pwynt canolig | 175,000 | 241,690 | 273,675 | 31,985 | 13.2% |
| **Band 3 (250 - 250+ Ml/a)** | | | | | |
| Cwsmer â defnydd ar fand pwynt canolig | 375,000 | 473,864 | 529,509 | 55,645 | 11.7% |
| **Crai >50 Ml/a 8 safle** | | | | | |
| Defnydd cyfartalog | 415,724 | 247,331 | 261,198 | 13,868 | 5.6% |
| **Rhannol >50 Ml/a** | | | | | |
| Defnydd nodweddiadol | 2,105,801 | 1,313,445 | 1,373,475 | 60,030 | 4.6% |